



Golwg ar dde-ddwyrain Caerdydd The Gate



Mae **Canolfan Gelfyddydol The Gate** (neu'n syml, 'y Gate') yn adeilad cymunedol bywiog yn Keppoch Street, oddi ar Heol y Plwca, yn ardal y Rhath yng Nghaerdydd. Mae'r Gate mewn adeilad gofrestredig Gradd 2 (a oedd gynt yn Eglwys Bresbyteraidd Plasnewydd), ac fe'i hagerwyd ym mis Medi 2004. Mae'r Ganolfan yn dylanwadu'n gryf ar bobl sy'n datblygu ac mae wedi cysylltu'n gadarnhaol â chymuned De-ddwyrain Caerdydd. Mae'r Theatr Fawr, a oedd yn rhan uwch yr eglwys, bellach yn fan perfformio trawiadol gyda lle i hyd at 350 yn y seddi pren gwreiddiol gyda rhesi seddau ar ogwydd. Mae harddwch pensaerniaeth yr eglwys wreiddiol yn creu lle sy'n ysbrydoli perfformwyr ac yn cynnig safle clos i gynulleidfaoddd.

Mae'r Stiwdio Ddawns yn dal i gynnwys y pulpud gwreiddiol cywrain, ac mae pileri cain yn ychwanegu at gymeriad y safle dawns ymarferol. Mae dwy oriel arddangos yn y Gate; mae'r cyntaf o amgylch sgrin sglein hyfryd ac eisteddle crwm (a oedd yn fynediad blaen yr eglwys yn wreiddiol), mae'r llall wedi ei hadeiladu yn erbyn y garreg allanol wreiddiol, sydd yn dal i'w gweld. Mae caffi ffasiynol yn yr ystafell ysgol wreiddiol, rhan hynaf yr adeilad sy'n dyddio'n ôl i 1896. Mae ystod o ystafelloedd ar gael yn y Gate, gan gynnwys ystafell neuadd y gall grwpiau theatr a cherddoriaeth berfformio ynddi. Mae bar a man arddangos hefyd. Defnyddir y ganolfan ar gyfer nifer mawr o weithgareddau, o ddsbarthiadau ymarfer corff a gigiau byw i oedfa'r bore ar ddydd Sul gan y "Vineyard Church".



Am fwy o wybodaeth, ewch i: www.thegate.org.uk neu ffoniwch: 029 20483344



Trydar

@STARComms1st-

Llongyfarchiadau i'n holl en-webeion ac enillwyr yn y Gwobrau Arwyr Lleol [#ocalheroes2015](#)

Rhybudd gan Heddlu De Cymru

Erbyn ddiwedd 2015, bydd dros 269,000 man WiFi cyhoeddus ym Mhrydain! Cadwch yn ddiogel – peidiwch â'i ddefnyddio i wneud eich siopa Nadolig [#ChristmasCon](#)

Mae Partneriaeth Canolfan Ddydd Moorland yn Ganolfan Ddydd sefydlog ar gyfer pobl dros 50 oed yng Nghanolfan Gymunedol Moorland ar Moorland Road yn Sblot. Mae'r ganolfan ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac mae'n cynnig amrywiaeth eang o adnoddau, gan gynnwys:

- Clwb cinio
- Dosbarthiadau zumba
- Ioga
- Gwneud cardiau
- Dosbarthiadau tylino ac ymlacio



Er bod cymorth gan fusnesau lleol, megis Ymgymerwyr James Summer, a Nisa, mae teithiau dydd a gweithgareddau wedi eu cynnal er mwyn sicrhau bod pobl a fyddai fel arall yn unig yn cael safon bywyd gwell.

Am fwy o fanylion ynghylch oriau agor ac ati, ffoniwch Rheolwr y Ganolfan Ddydd:

Dorothy Templeman ar 02921 328845

